**CYPE(6)-18-23- Papur i'w nodi 6**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

—

**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

—

**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Grŵp Trawsbleidiol ar Faterion Pobl Fyddar
Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar

06 Mehefin 2023

Annwyl gyfeillion,

Diolch i chi am gysylltu a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Hoffwn ymddiheuro yn gyntaf am yr oedi cyn ymateb i chi.

Nodwyd eich llythyr yn y cyfarfod ar 3 Mai. Roedd yr Aelodau yn rhannu eich pryderon ynghylch y niferoedd isel o Athrawon y Byddar. Efallai y byddai gennych ddiddordeb mewn gwybod fod y Pwyllgor newydd lansio ymchwiliad i fynediad plant a phobl ifanc anabl at ofal plant ac addysg ac i ba raddau mae darparwyr gofal plant, ysgolion ac awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i ddeall sut mae plant a phobl ifanc sy'n niwroamrwywiol, sydd ag anableddau corfforol neu nam ar y synhwyrau neu anableddau dysgu yn gallu cael mynediad at bob agwedd ar addysg a gofal plant. Mae'r cylch gorchwyl llawn ar gael ar dudalen yr ymchwiliad ar y wefan.

Fel rhan o'r broses o gasglu tystiolaeth, mae'r Pwyllgor wedi lansio ymgynghoriad yn ddiweddar. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu cyflwyniad ysgrifenedig yn tynnu sylw at y materion rydych wedi'u dwyn i'n sylw. Os yw'n well gennych, byddai'r tîm clercio yn hapus i dderbyn eich llythyr fel ymateb i'r ymgynghoriad. Cysylltwch â'r tîm ar seneddplant@senedd.cymru i gadarnhau. Byddem hefyd yn eich annog i gysylltu â'ch rhanddeiliaid i gyflwyno tystiolaeth i'n hymchwiliad.

Efallai y byddwch hefyd am fod yn ymwybodol bod y Pwyllgor hefyd yn ymgymryd ag ymchwiliad dros gyfnod y Senedd yn ymchwilio i ddiwygiadau addysgol allweddol, gan gynnwys gweithredu'r system ADY newydd. Fel rhan o'r ymchwiliad hwn rydym yn cynnal sesiynau craffu rheolaidd gyda Gweinidog y Gymraeg ac Addysg. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am yr un nesaf; bydd cyfle i chi godi pryderon cyn y sesiwn hon.

Yn gywir

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Jayne Bryant

Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.